# PROJECT LLYS Y BYD Y DU

Nid yw arfau niwclear yn ein diogelu. Maent yn magu ansicrwydd, amheuaeth ac ofn.

Mae'r rhan fwyaf o bobl am fyw mewn byd heb y bygythiad niwclear. Mae'r gyfraith yn cefnogi hyn:

- ym 1968 arwyddodd llywodraethau'r byd gytundeb oedd yn addo dileu arfau niwclear;
- Ym 1996 cadarnhaodd Llys y Byd fod hon yn rhwymedigaeth gyfreithiol;
- Yn 2000 addawodd yr UD, Rwsia, Ffrainc, China, a'r DU i ddileu eu harfogaethau niwclear.

Nid yw'r addewidion dwysddifrifol hyn yn cael eu cadw. Mae miloedd o arfau niwclear yn dal i fod yn barod i gael eu defnyddio ar ennyd o rybudd.

Gallwch helpu'r gyfraith i lwyddo a gwneud y byd yn lle mwy diogel drwy arwyddo'r

**Datganiad o blaid Byd Di-niwclear.**

Bydd yr holl Ddatganiadau yn cael eu harddangos mewn man amlwg yn Efrog Newydd yn 2005 pan fydd arweinwyr y byd yn ymgynnull yn y Cenhedloedd Unedig i adolygu eu rhwymedigaethau cytundeb.

**Gall eich un chi fod yn eu plith**

Rhwydwaith dinasyddion rhyngwladol yw Project Llys y Byd sy'n gweithio i roi cyhoeddusrwydd i Farn Gynghorol 8 Gorffennaf 1996 y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ar statws cyfreithiol bygwth ag arfau niwclear neu eu defnyddio.

## DATGANIAD O BLAID BYD DI-NIWCLEAR

Gan ..............................................................

Cyfeiriad
..........................................................

.....................................................................

**Nid wyf yn derbyn y gall arfau niwclear fy amddiffyn i, fy ngwlad na'r gwerthoedd rwyf yn eu coleddu.**

**Mynnaf felly fod cychwyn ar negydu a fydd yn arwain fesul cam at ddileu arfau niwclear, o dan reolaeth ryngwladol lem ac effeithiol.**

Arwyddwyd ..........................................

Danfonwch fwy o Ddatganiadau i eraill fedru eu harwyddo, os g. yn dda (nifer) ☐

A wnewch chi fy hysbysu am hynt a helynt y project hwn (tic) ☐

Er mwyn helpu'r fenter, amgaeaf gyfraniad o ☐

Sieciau'n daladwy i ***World Court Project UK***, 67 Summerheath Rd, Hailsham Sussex BN27 3DR +44( 0)1323 844 269
geowcpuk@gn.apc.org,
web www.gn.apc.org/wcp